## ATODLEN 3

Rheoliad 7(1) a (2)

## GOFYNION YMGYNGHORI AR GYFER GWAITH CYMWYS O DAN GYTUNDEBAU HIR-DYMOR CYMWYS A CHYTUNDEBAU Y MAE RHEOLIAD 7(3) YN GYMWYS IDDYNT

### *Hysbysiad o fwriad*

**1.**—(1) Rhaid i'r landlord roi hysbysiad ysgrifenedig o fwriad i gyflawni gwaith cymwys —

(a) i bob tenant; a

(b) i'r gymdeithas, os cynrychiolir rhai o'r tenantiaid neu'r tenantiaid i gyd gan gymdeithas tenantiaid gydnabyddedig.

(2) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) disgrifio'n gyffredinol y gwaith y cynigir ei gyflawni neu bennu ym mha le a pha bryd y gellir archwilio disgrifiad o'r gwaith arfaethedig;

(b) datgan rhesymau'r landlord dros ystyried bod angen cyflawni'r gwaith arfaethedig;

(c) cynnwys datganiad o gyfanswm y gwariant amcangyfrifedig y mae'n debygol y bydd y landlord yn ei dynnu wrth wneud y gwaith arfaethedig ac yn gysylltiedig ag ef;

(ch) gwahodd sylwadau ysgrifenedig, mewn perthynas â'r gwaith arfaethedig neu â gwariant amcangyfrifedig y landlord;

(d) pennu —

(i) y cyfeiriad lle y dylid anfon y sylwadau hynny;

(ii) ei bod yn rhaid iddynt gyrraedd o fewn y cyfnod perthnasol; a

(iii) y dyddiad y daw'r cyfnod perthnasol i ben.

### *Archwilio disgrifiad o waith arfaethedig*

**2.**—(1) Os yw hysbysiad o dan baragraff 1 yn pennu lle ac amser ar gyfer archwilio—

(a) rhaid i'r lle a'r amser a bennir felly fod yn rhesymol; a

(b) rhaid i ddisgrifiad o'r gwaith arfaethedig fod ar gael i'w archwilio, yn rhad ac am ddim, yn y lle hwnnw ac yn ystod yr oriau hynny.

(2) Os nad oes cyfleusterau ar gael i wneud copïau ar yr adegau y gellir archwilio'r disgrifiad, yna os gofynna'r tenant am gopi, rhaid i'r landlord ei ddarparu ar ei gyfer yn rhad ac am ddim.

### *Dyletswydd i ystyried sylwadau mewn perthynas â'r gwaith a'r gwariant amcangyfrifedig arfaethedig*

**3.** Os bydd unrhyw denant neu gymdeithas tenantiaid gydnabyddedig yn gwneud sylwadau mewn cysylltiad â'r gwaith arfaethedig neu â gwariant amcangyfrifedig y landlord, a hynny o fewn y cyfnod perthnasol, rhaid i'r landlord ystyried y sylwadau hynny.

### *Ymateb y landlord i sylwadau*

**4.** Os gwneir sylwadau y mae'n ofynnol i'r landlord (yn unol â pharagraff 3) eu hystyried, rhaid i'r landlord, o fewn 21 diwrnod i'w derbyn, ddatgan ymateb y landlord i'r sylwadau, a hynny mewn hysbysiad ysgrifenedig i'r person a wnaeth y sylwadau.